

## **Datganiad ar y cyd ar gynllunio gofal ymlaen llaw yng Nghymru**

Mae cynllunio gofal ymlaen llaw wedi'i bersonoli bob amser wedi bod yn ffactor hanfodol wrth sicrhau bod pobl yn cael gofal ag urddas o safon uchel; yn enwedig i bobl sydd â chyflyrau difrifol a chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, a phobl hŷn a all fod yn fregus. Mae hyn yn bwysicach nag erioed yn ystod pandemig COVID-19 sy'n effeithio arnom i gyd ar hyn o bryd, ac a fydd yn parhau yn ystod yr wythnosau a'r misoedd sydd i ddod.

Rydym yn cefnogi'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau cyfredol i gefnogi ymarferwyr a staff yn llawn wrth gynnal y sgysiau hyn. Mae'r canllawiau yn helpu i sicrhau y caiff dymuniadau a budd pennaf y bobl eu hystyried mewn ffordd sydd wedi'i phersonoli drwy drafodaethau cynllunio gofal ymlaen llaw. Mae'r canllawiau yn glir y dylid ond gwneud penderfyniadau ar sail unigol ac na ddylid eu gwneud ar gyfer grwpiau o bobl.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn ei gwneud yn ofynnol i'r penderfyniadau hyn gael eu cymryd ar y cyd â'r person dan sylw. Mae'n nodi sut y dylid cynnal trafodaethau os oes gan berson alluedd a beth i'w gwneud brosesau nad oes gan berson alluedd.

Fel rhan o brosesau cynllunio gofal ymlaen llaw, efallai y caiff trafodaeth a ffurflen Na Cheisier Dadebru Cardio-Anadlol ei ystyried hefyd. Fel bob amser, mae'n rhaid i brosesau cyfathrebu tosturiol wedi'u personoli fod yn rhan hanfodol o'r broses hon. Dylid gwneud penderfyniadau ar sail unigol bob amser ac er budd pennaf y person.

Dywedodd Alun Jones, Prif Weithredwr Dros Dro AGIC, a Gillian Baranski, Prif Arolygydd AGC:

"Fel arolygiaethau iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, rydym bob amser wedi chwarae rôl weithredol wrth arolygu a hyrwyddo gofal effeithol a thosturiol wedi'i bersonoli. Bydd y rôl hon yn parhau yn ystod y cyfnod heriol hwn. Yn ystod y pandemig hwn, mae'n hanfodol bod pob aelod o staff sy'n ymwneud â chynllunio gofal ymlaen llaw yn dilyn y canllawiau diweddaraf ac yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael iddynt i gael y trafodaethau hyn."

Mae nifer o ddogfennau canllaw ar gael i gefnogi staff ac ymarferwyr sy'n cael y sgysiau hyn pan fyddant yn briodol. Rydym wedi rhestru'r rhain isod a byddem yn annog staff ac ymarferwyr i sicrhau eu bod yn cyfeirio atynt wrth ystyried a chyflawni'r gwaith o gynllunio gofal ymlaen llaw.

Canllawiau a pholisïau allweddol er mwyn helpu i lywio'r gwaith o gynllunio gofal ymlaen llaw:

- Cymdeithas Feddygol Prydain, Cyngor Dadebru (y DU), a'r Coleg Nyrsio Brenhinol: Penderfyniadau mewn perthynas â Dadebru Cardio-anadlol (3ydd argraffiad – adolygiad 1af) (Saesneg yn unig) – <https://www.resus.org.uk/dnacpr/decisions-relating-to-cpr/>
- Cyngor Meddygol Cyffredinol: Triniaeth a gofal diwedd oes: arferion da wrth wneud penderfyniadau (Saesneg yn unig) – <https://www.gmc-uk.org/ethical-guidance/ethical-guidance-for-doctors/treatment-and-care-towards-the-end-of-life>
- GIG Cymru: Polisi a ffurflen Na Cheisier Dadebru Cardio-anadlol Cymru Gyfan (Oedolion) (Saesneg yn unig) - <http://www.wales.nhs.uk/document/355699/info/>
- GIG Cymru: Adnoddau a ffurflenni i gleifion a staff gofal iechyd ar gynllunio iechyd ymlaen llaw (Saesneg yn unig) - <http://www.wales.nhs.uk/researchandresources/publications/nhswalesadvancefuturecareplans>
- Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol: Cefnogi'r cleifion sydd fwyaf agored i niwed yn sgil y coronafeirws – Cael Sgyrsiau Sensitif a Chynllunio Gofal Uwch (Saesneg yn unig) – <https://www.rcgp.org.uk/covid-19/-/media/071B53AEEE20455A9669EDC1F66B2FCB.ashx>
- NICE: Cynllunio gofal ymlaen llaw, Canllaw cyflym i reolwyr cofrestredig cartrefi gofal a gwasanaethau cartrefi gofal (Saesneg yn unig) <https://www.nice.org.uk/about/nice-communities/social-care/quick-guides/advance-care-planning>
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru: Canllaw Cynllunio Gofal Uwch - [http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Publications\\_2018\\_19/ACP\\_Guide\\_cym.sflb.ashx](http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Publications_2018_19/ACP_Guide_cym.sflb.ashx)
- GIG Cymru, Byw Nawr, Cyngor Gofal Lliniarol Cenedlaethol ac eraill: Gwefan Cynllun Gofal o Flaen Llaw - <http://advancecareplan.org.uk/cymru/>